



## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Bro Morgannwg

### 2 Gorffennaf 2021

### Cofnodion

<b>Yn bresennol:</b>		
<b>Enw</b>	<b>Teitl</b>	<b>Sefydliad</b>
Y Cyngorydd Neil Moore (NM)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Rob Thomas (RT)	Rheolwr Gyfarwyddwr	Cyngor Bro Morgannwg
Paula Ham (PH)	Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau	Cyngor Bro Morgannwg
Y Cyngorydd Mike Cuddy (CMC)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref Penarth
Emil Evans (EE)	Is-bennaeth	Coleg Caerdydd a'r Fro
Charles Janczewski (CJ)	Cadeirydd y BIP	BIP Caerdydd a'r Fro
Tim Morgan	Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru
Chris Hadfield (CH)	Rheolwr Grŵp	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Judith Cole (JC)	Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Partneriaethau Cyllid a Gweithlu Llywodraeth Leol	Llywodraeth Cymru
Hannah Williams (HW)	Pennaeth De Cymru Un	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Mike Evans (ME)	Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De	Cyfoeth Naturiol Cymru
<b>Hefyd yn bresennol:</b>		
Tom Bowring (TB)	Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes	Cyngor Bro Morgannwg
Joanna Beynon (JB)	Swyddog Polisi	Cyngor Bro Morgannwg
Lloyd Fisher (LF)	Uwch Swyddog Data a Pholisi	Cyngor Bro Morgannwg
Suzanne Wood	Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus	BIP Caerdydd a'r Fro
Rebecca Stewart	Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Marie Davies	Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio Strategol	BIP Caerdydd a'r Fro
<b>Ymddiheuriadau:</b>		
Huw Jakeway (HJ)	Prif Swyddog Tân	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Mark Brace (MB)	Comisiynydd Cynorthwyol	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd De Cymru

Fiona Kinghorn (FK)	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Abigail Harris (AH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro
Rachel Connor (RC)	Cyfarwyddwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM)
Helen Moses (HM)	Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg

Eitemau'r Agenda	Camau Gweithredu
<p><b>1. Croeso a chyflwyniadau</b></p> <p>Croesawodd NM bawb i gyfarfod y BGC.</p>	
<p><b>2. Ymddiheuriadau</b></p> <p>Gweler uchod.</p>	
<p><b>3. Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 30 Ebrill 2021</b></p> <p>Cytunwyd bod y cofnodion yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod.</p>	
<p><b>4. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y BGC</b></p> <p>Cyflwynodd RT yr eitem a chroesawodd unrhyw enwebiadau ar gyfer y Cadeirydd. Enwebwyd NM gan CJ i barhau fel Cadeirydd, cafodd hyn ei eilio gan MC. Enwebwyd MB gan NM i barhau fel Is-gadeirydd, cafodd hyn ei eilio gan CJ.</p> <p>Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill a chytunodd pawb i NM ac MB gadw eu swyddi fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y drefn honno.</p>	
<p><b>5. Diweddariad COVID-19</b></p> <p>Diweddarodd SW y partneriaid ar y sefyllfa bresennol yn y Fro. Rhagwelir y bydd cyfartaledd treigl Bro Morgannwg yn cynyddu yn ystod yr wythnosau nesaf gyda'r gyfradd heintio bresennol yn cael ei sbarduno gan gynnydd yn y rhai o dan 25 oed, ond mae nifer y rhai 60+ oed sydd â COVID-19 yn wastad ar 17.8 fesul 100,000 sy'n newyddion cadarnhaol.</p> <p>Mae cyfradd positif y profion yng Nghaerdydd a'r Fro yn cael ei gyrru gan bobl ifanc 10-19 oed, mae'r grŵp oedran hwn yn llai tebygol o fod wedi cael y brechlyn eto. Nododd SW nad yw'r cyfraddau positif wedi trosi i gynnydd mewn marwolaethau na derbyniadau i'r ysbty. Mae'r nifer sy'n gorfod cael gwelyau mewn ysbytai yn parhau'n isel ac ar adeg y cyfarfod ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau mewn cartrefi gofal ledled Caerdydd a'r Fro.</p> <p>Ar hyn o bryd mae cyfraddau positifrwydd teithwyr yn isel iawn a'r straen mwyaf cyffredin yw amrywiolyn Delta. Mae'r cynnydd a welir yn y cyfraddau heintio yn debygol o fod o ganlyniad i'r cyfyngiadau yn cael eu hymllacio, presenoldeb amrywiolyn Delta a'r ffaith mai dim ond ychydig o bobl iau sydd wedi cael y brechlyn hyd yma.</p>	

<p>Ychwanegodd RT fod Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd, bob pythefnos bellach, i fonitro sefyllfa COVID yn y rhanbarth ac mae gwaith partneriaeth da yn parhau i ddigwydd rhwng y Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cymru a'r Heddlu. Wrth i sefydliadau ddechrau meddwl am sut y bydd eu gweithleoedd yn y dyfodol croesawodd partneriaid y cyfle i rannu eu profiadau ag eraill.</p> <p>Tynnodd NM sylw at bwysigrwydd partneriaid yn gweithio i sicrhau bod cymaint o bobl ifanc â phosibl yn cael y brechlyn. Adleisiwyd hyn gan EE. Gofynnodd JC i bartneriaid rannu gwybodaeth am yr ymgyrchoedd galw heibio 18+ mewn canolfannau brechu.</p> <p>Dywedodd CJ wrth bartneriaid, er bod y derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer COVID-19 yn isel yn y rhanbarth, bod pwysau sylweddol o hyd ar ysbytai a gwasanaethau iechyd eraill. Mae galw cynyddol hefyd yn cael ei weld ar wasanaethau gan gynnwys Gofal Brys sy'n brysur iawn unwaith eto yn gweld lefelau galw yn agos at y rhai a brofir fel arfer yn ystod misoedd y gaeaf. Er gwaethaf y cynnydd yn y galw, mae gwaith yn parhau i fynd i'r afael â'r dagfa o ganlyniad i COVID.</p>	<p><b>Pawb</b></p>
<p><b>6. Adroddiad Blynyddol Symud Mwy Bwyta'n Dda</b></p> <p>Cyflwynodd SW Adroddiad Blynyddol MMEW gan dynnu sylw at y cysylltiad â Chynllun Lles ac Adroddiad Blynyddol y BGC. Lansiodd MMEW ar 27 Gorffennaf 2020 ac er bod COVID wedi effeithio ar gyfleoedd i symud mwy a bwyta'n dda, cafwyd cyfleoedd i addasu a gwneud pethau ychydig yn wahanol i'w cartrefi ac i gyrraedd mwy o gymunedau drwy ddulliau digidol a chyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Amlinellodd RS y cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn y ffordd ymlaen a nodwyd yn 2021/22 ar gyfer tair thema allweddol; gweithredu ar y cyd a gweithio mewn partneriaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu, a monitro ac adrodd. Tynnodd RS sylw hefyd at y camau allweddol y mae'r tîm am gael cymorth strategol gyda hwy; gweithleoedd iach, hysbysebu a lleoliadau addysg iechyd.</p> <p>Gofynnwyd i bartneriaid nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Iach Caerdydd a Bro Morgannwg, cefnogi'r dull arfaethedig o yrru'r Cynllun yn ei flaen yn ystod 2021/22, nodi'r Aseidiad o'r Effaith ar Iechyd ar Gydraddoldeb a gaiff ei gyhoeddi'n fuan ac adolygu cynnydd ar ddiweddariadau bob 6 mis.</p> <p>Holodd PH beth oedd yr amserlen ar gyfer cynnal arolwg ysgol i lywio camau cydweithredol parhaus gan awgrymu mai'r amser gorau ar gyfer hyn fyddai mis Hydref pan fydd ysgolion wedi setlo i mewn i'r tymor newydd. Estynnodd PH gynnig hefyd i SW ac RS fynychu cyfarfod pennaeth i gyflwyno cynllun ac arolwg MMEW. Roedd SW ac RS yn hapus i gael eu harwain ar yr amserlen gan PH ac yn croesawu'r cyfle i fynychu cyfarfod pennaethiaid yn y dyfodol. Bydd PH yn cysylltu ag RS i drefnu presenoldeb.</p> <p>Llongyfarchodd MD gydweithwyr iechyd ar wneud cynnydd o'r fath o dan yr amgylchiadau anodd ac awgrymodd y gellid cynnwys y casgliad tystiolaeth yn Rhaglen Iechyd y Boblogaeth mewn dangosfwrdd. MD i gysylltu â SW i sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd â Rhaglen Iechyd y Boblogaeth.</p>	<p><b>PH</b></p> <p><b>MD</b></p>
<p><b>7. Adroddiad Cynnydd Arian Atal</b></p>	

<p>Darparodd SW drosolwg o'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf o dan y Gronfa Blynyddoedd Cynnar ac Atal. Darparwyd £881,000 y flwyddyn ar draws y partneriaethau yn y rhanbarth o dan y gronfa hon. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys gwaith o dan y cynllun cyn-ysgol iach a chynaliadwy, lansiad Maeth i'ch Un Bach (NYLO), cydlynedd y Fro Fwyd a swyddog NERS yn cael eu penodi a'r gwaith i barhau ac ehangu bancio amser ar draws y Fro.</p> <p>Diolchodd JC i'r tîm am eu gwaith a dywedodd wrth bartneriaid ei bod yn amlwg bod atal yn uchel iawn ar ei hagenda yn ystod sgwrs ddiweddar â'r Gweinidog dros lechyd a Gofal Cymdeithasol.</p>	
<p><b>8. Adroddiad Blynyddol BGC</b></p> <p>Diolchodd TB i bartneriaid am eu mewnbwn a'u cyfraniadau ar yr Adroddiad Blynyddol drafft ac amlinellodd gynnwys yr adroddiad terfynol. Tynnodd TB sylw at y ffaith bod diweddariadau ac astudiaethau achos y ffrwd waith yn dangos ehangder y gwaith sydd wedi digwydd yn ystod 2020/21 o dan bartneriaeth y BGC. Er gwaethaf y flwyddyn heriol mae'r adroddiad blynyddol yn dangos bod llawer o waith da wedi'i gyflawni o hyd.</p> <p>Nododd ME y bu dadl ddiweddar yn y Senedd ar yr argyfwng natur, a bydd llawer o'r gwaith i fynd i'r afael â'r argyfwng hwn yn cysylltu â gwaith y BGC i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Dywedodd ME hefyd wrth bartneriaid na fydd cyllid grant strategol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gael yn anffodus yn 2021/22. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n fewnol i ryddhau arian yn y dyfodol, os nad eleni, y flwyddyn nesaf gobeithio.</p> <p>Cefnogodd SW yr adroddiad a'r diweddariadau ar MMEW, teimlai SW fod yr adroddiad yn amlwg yn croesawu Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn dangos yr hyn y mae'r BGC wedi llwyddo i;w gyflawni ar draws y bartneriaeth.</p> <p>Cymeradwyodd yr holl bartneriaid yr adroddiad ac ymrwymodd i adrodd (fel y bo'n briodol) o fewn sefydliadau unigol.</p>	
<p><b>9. Diweddariad ar yr Asesiad Lles</b></p> <p>Cyflwynodd TB yr eitem yn dilyn y wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad Lles blaenorol a ddarparwyd yng nghyfarfod y BGC ym mis Ebrill. Amlinellodd yr hyn y mae'n rhaid i'r Asesiad ei gwmpasu o dan y canllawiau a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am amserlen y prosiectau a ddyfeisiwyd yn seiliedig ar yr amserlen statudol a nodir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y dadansoddiad data a'r ymchwil yn cael eu cynnal dros yr haf, yna bydd themâu a chanlyniadau allweddol yn cael eu harchwilio gyda phartneriaid drwy weithdai a bydd y gwaith hwn yn bwydo i mewn i'r Asesiad drafft a fydd yn cael ei gyflwyno i'r BGC fis Rhagfyr.</p> <p>Darparodd LF drosolwg o'r dull a fydd yn cael ei ddefnyddio yn y Fro sydd wedi'i ddatblygu yn seiliedig ar drafodaethau blaenorol yn y BGC. Bydd adroddiad trosolwg yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â 4 adroddiad ar themâu gwahanol. Bydd yr adroddiadau'n gyfuniad o Microsoft Sway a Microsoft Power Bi i'w gwneud mor ddiddorol â phosibl.</p> <p>Diolchodd LF i'r partneriaid am eu hadborth ar yr arolwg ymgysylltu drafft a fydd yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r sylwadau a'i lansio'n gyhoeddus ddiwedd mis Gorffennaf i redeg tan ganol mis Medi. Tynnodd LF sylw at y dulliau ymgysylltu ychwanegol a</p>	

<p>ddefnyddir yn ogystal â'r arolwg cyhoeddus gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol a grwpiau ffocws ar-lein.</p> <p>Lle y bo'n bosibl, bydd yr Asesiad Lles yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â Chaerdydd. Enghraifft o'r cydweithio hwn yw gweithdy rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro a Chaerdydd ar gyfer arweinwyr data i nodi setiau data a dangosyddion allweddol a ddefnyddir ar draws Asesiadau. Pan fydd yr Asesiad wedi'i ddrafftio bydd gwaith yn dechrau i drefnu gweithdy dyfodol ar y cyd â chydweithwyr BGC a PNA Caerdydd.</p> <p>Roedd SW yn gefnogol iawn o'r dull cydweithredol a diweddariadau meintiol treigl ar gyfer rhywfaint o'r data yn yr asesiad.</p> <p>Dyweddodd MC wrth bartneriaid fod llawer wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn yr Asesiad Lles mewn cyfarfodydd diweddar rhwng cydweithwyr BGC a Chynghorau Tref a Chymuned. Mae gan Gynghorau Tref a Chymuned lawer o ddata a gwybodaeth leol a all gefnogi'r Asesiad. Cytunodd y partneriaid ac maent yn awyddus i weithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar hyn.</p> <p>Cododd PH her mewn perthynas â data addysg gan fod newidiadau i'r fframwaith atebolrwydd ar gyfer ysgolion yn golygu na fydd llawer o ddata a gasglwyd yn flaenorol yn cael ei gasglu na'i gyhoeddi mwyach. Bydd hyn yn broblem ledled Cymru, ond mae cydweithwyr addysg yn gweithio gyda LF i nodi setiau data addas.</p> <p>Holodd TM a fyddai'r Asesiad yn cynnwys data ar ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsteddu, byddai'r data hwn yn ddefnyddiol i'r heddlu ei weld ar lefelau is, nododd TM hefyd fod yr heddlu'n awyddus i gefnogi'r gwaith mewn unrhyw ffordd bosibl. Diolchodd LF i TM am y gefnogaeth a chadarnhaodd y byddai'r Asesiad yn cynnwys data trosteddu a diogelwch cymunedol gan fod data trosteddau ar gael ar lefel ACEHI a lefel y stryd.</p>	
<p><b>10. Adborth o Gyfarfodydd gyda Chynghorau Tref a Chymuned</b></p> <p>Diweddarodd TB y partneriaid ar y cyfarfodydd rhithwir diweddar a gynhaliwyd gan gydweithwyr BGC gyda Chynghorau Tref a Chymuned. Diolchodd TB i'r partneriaid ac i MB am eu gwaith ar hyn a thynnodd sylw at y gwahoddiad a anfonwyd at bob Cyngor Tref a Chymuned yn y Fro ac roedd yr holl Gynghorau Tref mwy yn bresennol. Yn ystod y cyfarfodydd cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynghorau Tref a Chymuned am waith y BGC i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, cynnal yr Asesiad Lles a rhoi Cyfleoedd i'r Henoed.</p> <p>Rhoddodd MC drosolwg o'r materion a godwyd yn ystod y cyfarfod gyda llawer o adborth yn canolbwyntio ar Gynghorau Tref a Chymuned yn teimlo eu bod wedi'u datgysylltu ar gyfer y BGC a diffyg cyfathrebu a diffyg cyfranogiad. Er gwaethaf y materion roedd parodrwydd clir i fod yn rhan o'r dyfodol ac i ddarparu eu gwybodaeth leol. Nododd MC nad oes llawer o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru yn gweithio i gydweithio mwy â'u Cynghorau Tref a Chymuned, felly bydd hwn yn arwydd go iawn o anrhydedd os gall y BGC fynd i'r afael â'r materion hyn i weithio mwy mewn partneriaeth.</p> <p>Cyflwynodd MC y ffordd arfaethedig ymlaen i bartneriaid i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal cyfarfodydd mwy rheolaidd gyda Chynghorau Tref a Chymuned (e.e. 3 y flwyddyn) i ddiweddarau ar waith a chyfnewid syniadau, gallai MB gadeirio'r rhain fel Is-gadeirydd</li> </ul>	

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal cyfarfodydd/gweithdai penodol ar faterion fel newid yn yr hinsawdd a rhoi cyfleoedd i'r henoed sy'n cynnwys swyddogion o sefydliadau partner</li> <li>• Anfon cais at bob Cyngor Tref a Chymuned i rannu gwybodaeth am brosiectau cyfredol, blaenoriaethau cymunedol a nodwyd, canlyniadau ymgysylltu a gynhaliwyd a manylion ymgysylltu arfaethedig i helpu i lywio'r Asesiad Lles</li> </ul> <p>Rhoddodd TB wybod i'r partneriaid bod y Cyngorau Tref a Chymuned wedi mynegi diddordeb yn arddulliau'r gweithdai anffurfiol, ond byddai sicrhau bod diweddariadau rheolaidd yn cael eu hadrodd a'u trafod yn fwy ffurfiol gan y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol yn dal i fod yn bwysig. Ategodd RT y gefnogaeth i weithdai anffurfiol sydd wedi gweithio'n dda o'r blaen ac i Aelodau'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol roi gwybod i'w priod sefydliadau am drafodaeth fwy ffurfiol.</p> <p>Roedd CJ yn gefnogol o'r gwaith ac mae'n awyddus i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol helpu i gefnogi'r sgysriau gyda Chynghorau Tref a Chymuned gymaint â phosibl.</p> <p>Cytunodd partneriaid ar y ffordd ymlaen a awgrymwyd.</p>	
<p><b>11. Trafodaeth Myfyrio – Unrhyw newidiadau i waith ffocws y BGC a'r WBA?</b></p> <p>Nododd TB fod yr eitem hon yn gyfle i bartneriaid oedi a thrafod a oedd angen unrhyw newidiadau wrth symud ymlaen yn dilyn yr eitemau agenda sydd wedi dangos y cynnydd y mae'r BGC wedi'i wneud, y cynlluniau ar gyfer yr Asesiad Lles ac ar gyfer gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned.</p> <p>Cytunodd yr holl bartneriaid ar y ffyrdd ymlaen a awgrymwyd ac mai eitemau ffocws oedd y dulliau cywir i'w mabwysiadu.</p>	
<p><b>12. Y Flaenraglen Waith</b></p> <p>Amlinellodd TB drosolwg o'r flaenraglen waith sy'n tynnu sylw at gyfarfod nesaf y BGC fis Hydref a bydd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau ymgysylltu'r Asesiad Lles ac Adroddiad Blynyddol y Fro Ddiogelach. Croesawodd TB unrhyw awgrymiadau gan y partneriaid ar gyfer eitemau agenda yn y dyfodol a gofynnodd i'r partneriaid gysylltu â TB neu HM.</p>	<p><b>Pawb</b></p>
<p><b>13. Unrhyw fater arall</b></p> <p>Ni thrafodwyd unrhyw fusnes ychwanegol.</p>	
<p><b>14. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 15 Hydref 2021, 10:30am – 12:30pm drwy Microsoft Teams</b></p>	